
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

Adroddiad Arolygu ar gyfer Practis Meddygon Teulu (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

Meddygfa Tŷ Corwen, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

Dyddiad yr arolygiad: 11 Awst 2026

Dyddiad cyhoeddi: 11 Tachwedd 2026



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr gan fod ieithoedd a fformatau amgen yn cael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copi o bob adroddiad, pan gaiff ei gyhoeddi, ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu:

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-80853-653-3

© Hawlfraint y Goron 2026



Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw rheoleiddiwr ac arolygiaeth annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein Diben

Rydym yn gwirio diogelwch ac ansawdd gofal iechyd ledled Cymru.

Ein Gwerthoedd

Rydym yn rhoi pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn.

Rydym yn:

Annibynnol – rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud.

Gwrthrychol – rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth.

Pendant – rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws.

Cynhwysol – rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith.

Cymesur – rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae ei angen fwyaf.

Ein Gweledigaeth

Dyfodol lle mae gofal iechyd yng Nghymru yn ddiogel, yn effeithiol ac o ansawdd uchel i bawb.

Ein Blaenoriaethau

Rhoi Pobl yn Gyntaf – Byddwn yn canolbwyntio ar y risgiau mwyaf y mae pobl a chymunedau yn eu hwynebu wrth iddynt ddefnyddio gwasanaethau gofal iechyd nawr ac yn y dyfodol.

Dysgu a Gweithio Gyda'n Gilydd – Byddwn yn cydweithio â phartneriaid er mwyn rhannu gwersi a ddysgwyd ac ysgogi gwelliannau parhaus.

Buddsoddi yn Ein Pobl – Byddwn yn sicrhau bod ein pobl yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi, eu gwerthfawrogi a'u grymuso.

Cymryd Camau sydd o Bwys – Byddwn yn cymryd camau i wella ansawdd a diogelwch gofal iechyd ar gyfer dyfodol Cymru.



Cynnwys

1. Yr hyn a wnaethom 5

2. Crynodeb o'r arolygiad 6

3. Yr hyn a nodwyd gennym 12

   Ansawdd Profiad y Claf 12

   Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol 15

   Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth 19

4. Y camau nesaf 22

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad 23

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith 24

Atodiad C – Cynllun gwella 25



1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Feddygfa Tŷ Corwen ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ar 11 Awst 2026.

Roedd ein tîm arolygu yn cynnwys un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC, adolygydd ymarferydd cyffredinol, adolygydd nyrsys practis ac adolygydd cymheiriaid rheolwyr practis. Cafodd yr arolygiad ei arwain gan un o Arolygwyr Gofal Iechyd AGIC. Nid oedd gwasanaethau cyfleuster cyflenwi yn cael eu hadolygu fel rhan o'r arolygiad.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd cleifion a gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn ar weithio i'r gwasanaeth i ni. Daeth pedwar ymateb gan gleifion a thri ymateb gan staff i law. Oherwydd y gyfradd ymateb isel, nid oedd yr adborth wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn gan nad oedd maint y sampl yn ddigon i ddod i gasgliadau ystyrlon a gallai adrodd ar y canfyddiadau gyfaddawdu anhysbysrwydd yr ymatebydd.

Nodwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod staff ym Meddygfa Tŷ Corwen yn ymrwymedig i roi profiad cadarnhaol i gleifion a'u bod yn eu trin â charedigrwydd a phroffesiynoldeb. Roedd mesurau i sicrhau preifatrwydd yn cynnwys cadw drysau'r ystafelloedd ymgynghori ar gau a llenni preifatrwydd.

Roedd gwaith hybu iechyd yn amlwg, gyda chleifion yn cael eu hannog i reoli eu hiechyd eu hunain drwy gyngor a roddwyd ar lafar, drwy daflenni ac ar wefan y practis. Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o wasanaethau a gallai cleifion â mynediad i'r Rhyngrwyd ddod o hyd i wybodaeth am gyflyrau iechyd a manylion y practis ar-lein. Roedd taflenni copi caled hefyd ar gael i gleifion eu cadw.

Aethpwyd i'r afael â gofal amserol; roedd polisïau ar waith ar gyfer defnyddio gwasanaethau ac roedd gwybodaeth ar gael drwy wahanol sianeli. Gallai'r cleifion drefnu apwyntiadau dros y ffôn, wyneb yn wyneb neu drwy e-bost, a gallai'r cleifion a oedd yn gaeth i'w cartref wneud cais am ymweliadau cartref.

Roedd gwasanaethau cyfathrebu ac iaith da ar waith, ac roedd staff yn dangos eu bod yn siarad Cymraeg drwy wisgo'r bathodyn Iaith Gwaith. Roedd gwasanaethau cyfieithu a dolen sain ar gael i helpu cleifion ag anghenion cyfathrebu. Roedd mynediad i'r brif fynedfa yn dda. Roedd yr holl gyfleusterau clinigol wedi'u lleoli ar y llawr gwaelod.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd y staff yn y practis yn trin y cleifion ag urddas a pharch a gwelsom fod mesurau wedi'u rhoi ar waith i amddiffyn eu preifatrwydd
- Roedd mynediad da i'r adeilad i bobl anabl. Gallai pobl sy'n defnyddio cadair olwyn gael mynediad i bob ystafell ymgynghori, y dderbynfa, yr ardal aros a'r toiledau.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y cleifion a oedd yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd uchel.

Roedd mesurau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff ac ymwelwyr.

Roedd y lleoliad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, nid oedd peryglon yn bresennol ac roedd ganddo gyfarpar wedi'i wasanaethu. Roedd asesiadau risg presennol yn cynnwys tân, yr amgylchedd ac iechyd a diogelwch.

Roedd mesurau atal a rheoli heintiau ar waith, gan gynnwys polisi atal a rheoli heintiau. Roedd amserlenni glanhau yn cael eu dilyn, ac roedd cyfarpar diogelu personol a hylif diheintio dwylo ar gael yn hwylus. Roedd mesurau ar waith i atal anafiadau a achosir gan offer miniog ac i ymdrin â nhw, ac roedd gwiriadau sgrinio iechyd ar waith i'r staff clinigol. Roedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau gorfodol ar lefel 2.

Gwelsom fod y trefniadau diogelu yn y practis wedi'u sefydlu'n dda, gyda pholisïau clir ar waith, staff a oedd wedi'u hyfforddi'n briodol, ac roedd trafodaethau amlddisgyblaethol rheolaidd yn cael eu defnyddio i gefnogi cleifion agored i niwed. Dangosodd y staff ymwybyddiaeth dda o'u cyfrifoldebau diogelu a gallent ddisgrifio'r camau gweithredu y byddent yn eu cymryd pe bai pryderon yn cael eu nodi yn glir. Fodd bynnag, gwnaethom nodi cyfleoedd i gryfhau trefniadau presennol ymhellach drwy sicrhau bod hysbysiadau diogelu'n cael eu cymhwyso'n gyson i gysylltiadau perthnasol yr aelwyd a thrwy wella proses Ni Ddaethpwyd â Nhw (Was Not Brought) y practis i gefnogi apwyntiadau dilynol plant ac oedolion agored i niwed na wnaethant fynychu eu hapwyntiadau gofal eilaidd. Bydd y gwelliannau hyn yn helpu i roi sicrwydd ychwanegol bod risgiau diogelu posibl yn cael eu nodi a'u gweithredu arnynt cyn gynted â phosibl.

Roedd y dyfeisiau a'r cyfarpar meddygol yn cael eu profi'n rheolaidd, ac roedd cyfarpar meddygol untro yn cael ei ddefnyddio fel y bo'n briodol. Darparwyd hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol i'r staff, ac roedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn bresennol ac yn cael eu storio'n ddiogel ond dylid cynyddu pa mor aml y cynhelir y gwiriadau hyn.

Roedd y sampl o gofnodion cleifion a welsom o safon dda, yn glir ac yn ddarllenadwy, ac yn cynnwys dogfennau cyfoes a chydsyniad dilys. Roedd prosesau ar waith i hyrwyddo gofal diogel ac effeithiol, a gwelwyd enghreifftiau da o brosesau rheoli salwch cronig a gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y claf. Roedd y systemau ar gyfer cofnodi digwyddiadau o bwys a dysgu oddi wrthynt yn briodol, ac mae'r staff yn sicrhau eu bod yn ymwybodol o arferion newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chanllawiau NICE.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Adolygu'r polisi Ni Ddaethpwyd â Nhw i sicrhau bod plant ac oedolion agored i niwed na wnaethant fynychu eu hapwyntiadau ysbyty yn cael apwyntiad a dogfennaeth ddilynol.
- Rhoi hyfforddiant i'r staff ar ddefnyddio silindrau ocsigen cludadwy a chynyddu pa mor aml y caiff cyfarpar eu gwirio.
- Ychwanegu baneri diogelu at gofnodion cysylltiadau aelwyd y plant ar y gofrestr amddiffyn plant
- Cyflwyno proses sicrhau ansawdd wedi'i dogfennu er mwyn adolygu sampl o grynodebau o gofnodion cleifion newydd a gwblhawyd gan staff gweinyddol i sicrhau y caiff gwybodaeth glinigol ei throsglwyddo'n gywir ac yn gyson.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd safle'r practis i'w weld mewn cyflwr da ac yn lân ac nid oedd unrhyw beryglon amlwg
- Cafodd trefniadau effeithiol eu disgrifio a'u dangos mewn perthynas â diogelu
- Gwelsom system rheoli cofnodion effeithiol ac roedd cofnodion y cleifion y gwnaethom edrych arnynt yn glir, yn ddarllenadwy ac o safon dda.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Gwelsom fod y tîm arwain yn darparu arweinyddiaeth effeithiol ac roedd llinellau atebolrwydd clir. Roedd ethos cryf a diwylliant cadarnhaol yn bresennol, ac roedd y staff yn anelu i ddarparu gofal cleifion o safon uchel.

Roedd yn ymddangos bod y practis yn cael ei reoli'n dda gan reolwr practis ymrwymedig ac ymroddedig. Roedd y staff yn teimlo bod aelodau'r tîm rheoli yn hawdd mynd atynt ac yn drylwyr wrth fynd i'r afael â materion.

Roedd polisïau recriwtio ar waith ac roedd hyfforddiant gorfodol a hyfforddiant penodol i'r rôl wedi'u cwblhau, yr oedd tystiolaeth o hynny yn y matrics hyfforddiant staff a ffeiliau'r staff.

Ceisiwyd adborth gan gleifion yn weithredol drwy holiaduron, a defnyddiwyd yr adborth i wella gwasanaethau. Roedd polisi Dyletswydd Gonestrwydd ar waith yn y practis, ac roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant ac yn deall ei gyfrifoldebau mewn perthynas â hyn.

Roedd trefniadau llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol yn ddigonol, gan sicrhau cyfrinachedd i'r cleifion a chydymffurfiaeth â'r Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR).

Roedd gan bob aelod o'r staff dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd. Roedd y staff yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gwella ansawdd, gan ddatblygu dulliau darparu gofal arloesol a chymryd rhan mewn prosiectau ar gyfer y clwstwr cyfan. Roedd y practis yn cydweithio'n dda yn y clwstwr meddygon teulu, gydag ymgysylltu cadarn a chyd-ymdrechion effeithiol.

Roedd aelodau'r tîm clinigol yn wybodus, yn broffesiynol ac yn dangos eu bod yn deall ble a sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Rhoi proses fwy ffurfiol ar waith i fonitro cymwyseddau presgripsiynwyr anfeddygol.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom bob aelod o'r staff, yn cynnwys y staff clinigol ac anghlinigol, yn gweithio'n effeithiol gyda'i gilydd fel rhan o dîm
- Proses sefydlu staff dda ar waith
- Roedd y practis yn cael ei reoli gan reolwr practis ymrwymedig ac ymroddedig ac yn cael ei gefnogi gan weithiwr cymorth gofal iechyd ymrwymedig.
- Cyfarfodydd clinigol / tîm rheolaidd.

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd

Gwelsom fod cleifion yn cael eu hannog i gymryd cyfrifoldeb am reoli eu hiechyd eu hunain, drwy roi cyngor hybu iechyd iddynt. Roedd y cyngor hwn ar gael yn yr ystafell aros, ar wefan y practis ac yn cael ei roi ar lafar gan y meddygon a'r nyrsys yn ystod ymgyngoriadau.

Roedd arwyddion 'Dim Smygu' yn cael eu harddangos, a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ynglŷn â mangreoedd di-fwg.

Roedd gwybodaeth ysgrifenedig yn cael ei harddangos yn adeilad y practis yn rhoi gwybod i'r cleifion am y gwasanaethau eraill y gallent droi atynt am gyngor iechyd neu driniaeth.

Roedd y practis yn cynnig amrywiaeth o wasanaethau a chlinigau fel y rhai ar gyfer brechiadau a rheoli clefydau cronig.

Gwelsom y gallai cleifion gyda mynediad i'r rhyngrwyd ddod o hyd i wybodaeth am amrywiaeth o gyflyrau iechyd ar wefan y practis. At hynny, roedd gwybodaeth am amseroedd agor y practis a'r gwasanaeth y tu allan i oriau ar gael ar wefan y practis ac yn y daflen gwybodaeth i gleifion.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom y staff yn y practis yn trin y cleifion a'u cynrychiolwyr â pharch a charedigrwydd, a gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn ffordd broffesiynol, wyneb yn wyneb a dros y ffôn.

Gwelsom fod drysau'r ystafelloedd ymgynghori yn cael eu cau pan oedd cleifion yn cael eu gweld gan feddygon teulu neu staff gofal iechyd eraill, a oedd yn hyrwyddo eu preifatrwydd ac urddas. Roedd llenni preifatrwydd yn yr ystafelloedd ymgynghori yr oedd modd eu defnyddio i roi preifatrwydd ychwanegol pan oedd cleifion yn cael eu harchwilio.

Gwelsom fod ymholiadau dros y ffôn yn cael eu rheoli o swyddfa ddynodedig nad oedd yn agored i'r cyhoedd, gan sicrhau na allai cleifion yn yr ardal aros glywed sgyrsiau. Roedd yr ystafelloedd ymgynghori wedi'u lleoli mewn ardal ar wahân i'r ardal aros, a oedd yn helpu i sicrhau nad oedd sgyrsiau'n cael eu clywed gan bobl yn yr ystafell aros.

Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith mewn perthynas â defnyddio hebryngwyr ac roedd y staff wedi cael yr hyfforddiant perthnasol. Roedd gwybodaeth am yr hawl i ofyn am hebryngwr wedi'i harddangos yn glir yn yr ystafell aros ac ym mhob ystafell ymgynghori. Gwelsom fod cais am hebryngwr wedi'i gynnig a'i gofnodi yn y sampl o gofnodion cleifion a welsom.

Amserol

Gofal amserol

Roedd polisi cyfredol ar waith yn y practis ar sut y gallai cleifion gael gafael ar y gwasanaethau a ddarperir. Roedd gwybodaeth i gleifion am sut y gallent drefnu apwyntiadau gyda'r meddyg teulu neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol addas arall, ar gael ar wefan y practis, ar y neges ffôn, ac yn nhaflen wybodaeth y practis.

Dywedwyd wrthym y gallai'r cleifion drefnu apwyntiad ar yr un diwrnod dros y ffôn neu'n bersonol yn y practis o 8 o'r gloch bob bore. Roedd y practis yn gwneud ymdrechion gweithredol i annog cleifion nad oes ganddynt anghenion clinigol brys i gysylltu â'r practis ar amseroedd gwahanol o'r dydd i leihau amseroedd aros hir. Gallai'r cleifion hefyd gysylltu â'r practis i drefnu apwyntiadau arferol hyd at bedair wythnos ymlaen llaw. Gallai cleifion sy'n gaeth i'w cartref ofyn i feddyg teulu ymweld â nhw yn eu cartref. Dywedwyd wrthym hefyd fod y practis yn darparu gwasanaethau i gartref gofal lleol ac yn ymweld â'r cartref yn rheolaidd.

Dywedwyd wrthym fod pob aelod o staff y dderbynfa wedi cael hyfforddiant ar Lywio Gofal, i'w helpu i gyfeirio cleifion at y gweithiwr gofal iechyd proffesiynol neu'r gwasanaeth mwyaf priodol.

Roedd y practis yn gwneud atgyfeiriadau at ofal eilaidd ac arbenigwyr eraill mewn modd amserol yn y sampl o gofnodion a welsom.

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Roedd taflen wybodaeth y practis a oedd wedi'i lleoli yn yr ardal aros ac a oedd ar gael ar wefan y practis yn rhoi gwybodaeth ddefnyddiol i gleifion. Roedd hyn yn cynnwys manylion cyswllt ac amseroedd agor y practis, y gwasanaethau a ddarperir, sut y gallai cleifion gofrestru, opsiynau o ran apwyntiadau, sut y gallai cleifion archebu presgripsiynau rheolaidd, a throsolwg o dîm y practis. Roedd amrywiaeth o wybodaeth hefyd ar gael ar wefan y practis.

Roedd cymysgedd da o staff clinigol ac anghlinigol yn gweithio yn y practis yn siarad Cymraeg, a oedd yn helpu i ddiwallu anghenion cleifion sy'n siarad Cymraeg. Dywedwyd wrthym hefyd y byddai'r practis yn gwneud ymdrech i ddarparu gwybodaeth i gleifion yn eu dewis iaith a'u dewis fformat.

Dywedwyd wrthym hefyd, pe bai angen, y gallai'r staff ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu i'w helpu i gyfathrebu â chleifion nad Cymraeg na Saesneg oedd eu hiaith gyntaf.

Roedd dolen sain yn y practis er mwyn helpu'r staff i gyfathrebu â chleifion a oedd yn drwm eu clyw ac yn gwisgo cymhorthion clyw.

Hawliau a chydraddoldeb

Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith yn y practis mewn perthynas â chydraddoldeb ac amrywiaeth a gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau'r hyfforddiant hwn. Efallai yr hoffai'r practis ystyried rhoi hyfforddiant ar ymwybyddiaeth o awtistiaeth er mwyn helpu staff ymhellach i ddiwallu anghenion cleifion awtistig a darparu gofal sy'n canolbwyntio ar y claf.

Roedd mynediad i'r brif fynedfa yn dda. Roedd yr holl gyfleusterau, gan gynnwys desg y dderbynfa, yr ystafell aros, toiledau'r cleifion a'r ystafelloedd ymgynghori ar y llawr gwaelod.

Roedd polisi ysgrifenedig cyfredol ar waith ar gyfer cael cydsyniad dilys gan gleifion. Cadarnhaodd ein harchwiliad o sampl o gofnodion y cleifion fod clinigwyr yn gwneud cofnod pan oedd y cleifion yn cydsynio ar lafar i archwiliad neu driniaeth.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Rheoli risg

Roedd trefniadau ar waith i sicrhau diogelwch a llesiant y staff a phobl sy'n ymweld â'r practis. Gwelsom fod y safle i'w weld yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, yn fewnol ac yn allanol. Nid oedd unrhyw beryglon amlwg yn unrhyw un o'r ardaloedd.

Roedd cyfarpar diffodd tân ar gael mewn gwahanol leoliadau yn y practis, a gwelsom fod y cyfarpar hwnnw wedi cael ei wasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd arwyddion clir i'r allanfeydd brys ac roedd poster yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch (HSE) yn cael ei arddangos.

Gwelsom fod asesiad risg cyffredinol cyfredol ar waith, yn cwmpasu tân, yr amgylchedd, ac iechyd a diogelwch, a oedd yn cael ei adolygu'n rheolaidd.

Gwnaethom edrych ar amrywiaeth o ddogfennau a oedd yn cadarnhau bod yr holl risgiau, yn fewnol ac yn allanol, i'r staff, ymwelwyr a chleifion wedi'u hystyried. Felly, cawsom sicrwydd fod y safle yn addas at y diben.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Roedd polisi rheoli heintiau manwl ar waith.

Roedd cyfarpar diogelu personol, fel menig a ffedogau plastig untro, ar gael i'r staff er mwyn lleihau achosion o groes-heintio. Roedd yr ardaloedd o'r practis y gwnaethom edrych arnynt yn lân yr olwg.

Roedd y cwpwrdd dynodedig ar gyfer storio cyfarpar glanhau yn drefnus ac yn cael ei gynnal a'i gadw'n effeithlon. Roedd amserlenni glanhau a rhestrau gwirio ar waith ac yn cael eu cwblhau'n ddyddiol.

Gwelsom fod llenni tafladwy ym mhob un o'r ystafelloedd ymgynghori, yr oedd modd eu newid yn hawdd pe baent wedi'u halogi neu eu baeddu.

Roedd hylif diheintio dwylo hefyd ar gael yn hwylus o amgylch y practis. Roedd cyfleusterau golchi a sychu dwylo ar gael yn yr ardaloedd clinigol a'r toiledau.

Roedd trefniadau priodol ar waith i ymdrin ag anafiadau a achosir gan offer miniog, ac roedd gwiriadau sgrinio iechyd wedi cael eu cwblhau ar gyfer y staff clinigol. Roedd pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant atal a rheoli heintiau ar y lefel ofynnol ar gyfer ei rôl.

Rheoli meddyginiaethau

Roedd yr holl frechlynnau a meddyginiaethau yr oedd angen eu cadw mewn oergell yn cael eu storio'n ddiogel mewn oergelloedd clinigol dynodedig, a oedd wedi'u gwasanaethu'n ddiweddar. Nid oedd gormod o stoc ynddynt, gan sicrhau llif aer digon oer drwyddynt. Roedd tystiolaeth ar gael fod tymheredd yr oergelloedd yn cael eu monitro'n ddyddiol ac roedd polisi cadwyn oer yr oedd y staff yn ei ddeall ac yn ei ddilyn yn cefnogi hyn. Gwnaethom awgrymu i'r practis yn ystod yr arolygiad ei fod yn lawrlwytho ei ddyfais cofnodi data yn amlach. Cafodd sampl o stoc ei gwirio a gwelwyd ei bod yn gyfredol ac yn barod i'w rhoi. Gellid gwneud cais am bresgripsiynau rheolaidd wyneb yn wyneb drwy dîm y cyfleuster cyflenwi, drwy'r post, dros e-bost, neu drwy ddefnyddio Ap GIG Cymru. Nodwyd bod y practis yn gwneud ymdrech i ddosbarthu presgripsiynau o fewn 72 awr. Nid oedd y practis yn derbyn ceisiadau am bresgripsiynau rheolaidd dros y ffôn am resymau yn ymwneud â diogelwch.

Diogelu plant ac oedolion

Roedd polisïau a gweithdrefnau ar waith i hyrwyddo a diogelu lles a diogelwch plant ac oedolion a oedd yn agored i niwed neu sy'n wynebu risg. Roedd y polisïau'n cynnwys manylion cyswllt y tîm diogelu lleol.

Eglurodd y staff sut i nodi arwyddion bod plant ac oedolion agored i niwed yn cael eu cam-drin. Roedd y staff yn ymwybodol hefyd o'u cyfrifoldebau i rannu gwybodaeth a chofnodi pryderon diogelu, ac roeddent yn gwybod sut i gysylltu â'r asiantaethau perthnasol.

Roedd y practis yn cynnal cyfarfodydd diogelu amlddisgyblaethol rheolaidd, ac roedd y cofnodion a welsom yn ystod yr arolygiad yn dangos bod y cyfarfodydd hyn yn gyfle i drafod cleifion agored i niwed, rhannu gwybodaeth, a chydlynu cymorth parhaus.

Gwnaethom nodi nad oedd hysbysiadau diogelu'n cael eu hychwanegu'n rheolaidd at gofnodion cysylltiadau aelwyd y plant ar y gofrestr amddiffyn plant.

Rhaid i'r practis roi proses ar waith i sicrhau bod baneri diogelu yn cael eu hychwanegu at gofnodion cysylltiadau aelwyd y plant ar y gofrestr amddiffyn plant.

Gwelsom dystiolaeth bod pob aelod o'r staff clinigol a'r staff anghlinigol wedi cwblhau hyfforddiant ar ddiogelu plant ac oedolion agored i niwed.

Disgrifiodd rheolwr y practis y gwiriadau cyn cyflogi a gynhelid ar gyfer unrhyw aelodau newydd o staff. Roedd hyn yn cynnwys gwirio geirdaon a chynnal gwiriadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar staff ar lefel sy'n briodol i'r gwaith a wneir ganddynt.

Gwelsom bolisi presennol Ni Ddaethpwyd â Nhw y practis a chanfod ei fod yn gyfredol. Fodd bynnag, nid oedd y polisi'n cynnwys trefniadau ar gyfer apwyntiad dilynol i blant ac oedolion agored i niwed na wnaethant fynychu eu hapwyntiadau ysbyty. Rydym yn argymell bod y practis yn adolygu ei bolisi Ni Wnaethant Fynychu a chyflwyno proses wedi'i dogfennu i sicrhau bod plant dan 16 oed ac oedolion agored i niwed, na wnaethant fynychu eu hapwyntiadau gofal eilaidd yn cael apwyntiad dilynol priodol. Dylai hyn gynnwys adolygu statws atgyfeiriadau a chofnodi pob cam gweithredu a gymerwyd yng nghofnod y claf.

Rhaid i'r practis adolygu a diweddaru ei bolisi Ni Ddaethpwyd â Nhw i gynnwys proses wedi'i dogfennu er mwyn rhoi apwyntiad dilynol i blant dan 16 oed ac oedolion agored i niwed na wnaethant fynychu eu hapwyntiadau ysbyty, gan sicrhau y caiff eu statws atgyfeirio ei adolygu ac y caiff pob cam gweithredu ei gofnodi.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod dyfeisiau trydanol cludadwy yn cael eu profi'n rheolaidd, ac mai dim ond cyfarpar meddygol untro a ddefnyddiwyd lle y bo'n berthnasol.

Roedd gweithdrefnau ar waith a oedd yn dangos sut i ymateb i argyfyngau meddygol cleifion. Roedd pob aelod o'r staff clinigol wedi cael hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol. Yn ogystal â'r hyfforddiant cynnal bywyd sylfaenol blynyddol, gwnaethom hefyd argymell bod yn rhaid i'r staff gwblhau hyfforddiant y British Oxygen Company (BOC) ar silindrau ocsigen.

Rhaid i'r practis drefnu bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar Silindrau Ocsigen BOC.

Roedd y cyffuriau brys yn cael eu storio'n ddiogel ac roedd system ar waith i wirio'r cyffuriau a'r cyfarpar brys er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn barod i'w defnyddio. Fodd bynnag, rydym yn argymell cwblhau gwiriadau'n amlach, yn unol â'r safonau a nodwyd gan y Cyngor Adfywio (y DU).

Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau ar gyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu cwblhau'n wythnosol o leiaf, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Adfywio.

Effeithiol

Gofal effeithiol

Roedd trefniadau addas ar waith i roi gwybod am ddigwyddiadau sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a digwyddiadau o bwys. Roedd y practis yn defnyddio system electronig Datix i roi gwybod am ddigwyddiadau.

Cadarnhaodd y staff clinigol fod proses gynhwysfawr ar waith ar gyfer derbyn a rhannu ymarfer newydd sy'n seiliedig ar dystiolaeth a chanllawiau newydd neu wedi'u diweddaru gan y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE).

Cofnodion cleifion

Gwnaethom edrych ar gofnodion gofal 10 claf a gwelsom fod system rheoli cofnodion effeithiol ar waith. Roedd y cofnodion yn cael eu storio'n ddiogel er mwyn atal mynediad heb awdurdod.

Roedd y cofnodion yr edrychwyd arnynt yn glir, yn ddarllenadwy ac o ansawdd nodedig. Roedd y cofnodion yn dangos yn glir pwy oedd yn dogfennu, dyddiad yr ymgynghoriad neu'r driniaeth a'r manylion. Roedd y cofnodion wedi cael eu cwblhau ar y pryd. Roeddent hefyd yn dangos bod cydsyniad dilys wedi'i gael, lle y bo'n briodol.

Gwelsom enghreifftiau da o reoli salwch acíwt a chronig, a naratif clir â thystiolaeth o brosesau gwneud penderfyniadau sy'n canolbwyntio ar y claf. Roedd y cofnodion hefyd yn dangos alergeddau hysbys cleifion, yn ogystal ag adweithiau andwyol i feddyginiaethau.

Gwelsom fod cofnodion y cleifion o safon dda, ac yn cael eu cynnal a'u cadw'n briodol. Fodd bynnag, gwnaethom nodi cyfle i'r practis gryfhau ei drefniadau sicrhau ansawdd drwy gyflwyno gwiriadau rheolaidd o gofnodion cleifion newydd a oedd yn crynhoi'r rhai a gwblhawyd gan staff gweinyddol. Byddai hyn yn rhoi sicrwydd ychwanegol bod gwybodaeth glinigol allweddol yn cael ei throsglwyddo'n gywir ac yn gyson i gofnodion cleifion.

Rhaid i'r practis gyflwyno proses sicrhau ansawdd er mwyn adolygu gwaith crynhoi cofnodion cleifion newydd a gwblhawyd gan aelodau o'r staff gweinyddol.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac arweinyddiaeth

Roedd y practis yn darparu ystod eang o wasanaethau gofal sylfaenol a gwasanaethau iechyd ataliol, gan gynnwys rheoli clefydau cronig, gwaith goruchwylio iechyd plant, sgrinio cardiofasgwlar, gofal anadlol, cynllunio teulu, monitro gwrthgeulo, mân lawdriniaethau, imiwneiddiadau a gwasanaethau iechyd teithio. Roedd y practis wedi datblygu gwasanaethau i gefnogi cleifion â chyflyrau hirdymor ac wedi darparu gweithgareddau sgrinio a hybu iechyd i ddiwallu anghenion ei boblogaeth leol.

Gwelsom fod rheolwr y practis yn dangos arweinyddiaeth gadarn, ei bod yn llawn cymhelliant ac yn dangos ymroddiad clir i'r rôl. Dywedodd y staff wrthym fod rheolwr y practis a'r partneriaid eraill yn hawdd mynd atynt ac yn gefnogol. Roeddent hefyd yn teimlo eu bod yn gallu codi pryderon, ac yn hyderus y byddai camau'n cael eu cymryd i fynd i'r afael â materion mewn ffordd gynhwysfawr a thrylwyr.

Gwelsom dîm o staff a oedd yn canolbwyntio ar y cleifion ac a oedd yn ymrwymedig i ddarparu'r gwasanaeth gorau posibl. Roedd y staff yn barchus, yn gwrtais, ac yn gadarnhaol am eu hamgylchedd gwaith, a gwnaethant ddweud eu bod yn teimlo bod eu cydweithwyr yn eu cefnogi'n dda.

Roedd y staff yn glir ac yn wybodus ynghylch eu rolau a'u cyfrifoldebau, ac roeddent yn ymrwymedig i ddarparu gofal o safon uchel. Roedd hyn yn cael ei gefnogi gan gyfres gynhwysfawr o bolisïau a gweithdrefnau, gyda dyddiadau cyhoeddi ac adolygu wedi'u nodi arnynt er mwyn sicrhau eu bod yn parhau'n gyfredol.

Gwelsom fod partneriaid y practis a'r staff clinigol yn mynychu sgrymiau dyddiol lle byddai materion neu bryderon yn cael eu trafod. Dywedwyd wrthym hefyd fod y tîm rheoli a'r staff clinigol yn mynychu cyfarfodydd rheoli clinigol misol, a gwelsom sampl o gofnodion ar gyfer y cyfarfodydd hyn.

Ar y cyfan, gwelsom fod y staff yn rhagweithiol, yn wybodus ac yn broffesiynol. Roeddent yn dangos dealltwriaeth glir o sut i gael gafael ar gyngor ac arweiniad pan fo angen.

Y Gweithlu

Gweithlu medrus a galluog

Roedd gan y practis dîm sefydledig o staff derbynfa, staff gweinyddol a staff clinigol. Disgrifiodd y staff y gwnaethom siarad â nhw amgylchedd gwaith cadarnhaol a chefnogol, a gwnaethant ddweud wrthym eu bod yn falch o weithio yn y practis. At

hynny, wrth drafod â'r staff, gwelsom eu bod yn meddu ar y sgiliau a'r wybodaeth gywir i gyflawni eu rolau penodol yn y practis. Roedd y staff hefyd yn teimlo eu bod yn cael cyfleoedd i fynychu hyfforddiant perthnasol ac roeddent yn cael arfarniadau blynyddol.

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau recriwtio ffurfiol ar waith, ac roedd y wybodaeth a welsom yn ffeiliau'r staff yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant a oedd yn berthnasol i'w rolau.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Roedd gweithdrefn gwyno ysgrifenedig ar waith. Gwelsom hefyd fod proses Gweithio i Wella GIG Cymru wedi'i harddangos ac ar gael i bob claf yn yr ardal aros. Roedd manylion hefyd wedi'u cynnwys yn y daflen wybodaeth i gleifion ac ar wefan y practis.

Gwnaethom drafod y broses ar gyfer casglu adborth gan gleifion, a oedd yn digwydd drwy ddosbarthu holiaduron i gleifion yn yr ardal aros. Gallai cleifion hefyd roi adborth drwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Gwelsom fod gan y practis bolisi ar y Ddyletswydd Gonestrwydd, a oedd yn nodi rolau a chyfrifoldebau'r staff fel yr argymhellir gan Ganllawiau Statudol y Ddyletswydd Gonestrwydd (2023). Dywedodd pob aelod o'r staff y gwnaethom siarad ag ef ei fod yn gwybod ac yn deall ei gyfrifoldebau o dan y Ddyletswydd Gonestrwydd. Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cael hyfforddiant ar y Ddyletswydd Gonestrwydd.

Gwybodaeth

Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg ddigidol

Roedd systemau cyfathrebu addas ar waith er mwyn helpu i weithredu'r practis.

Roedd trefniadau digonol ar waith ar gyfer cynnal cyfrinachedd cleifion a chydymffurfio â gofynion Llywodraethu Gwybodaeth a Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2018 (GDPR).

Dysgu, gwella ac ymchwil

Gweithgareddau gwella ansawdd

Gwelsom fod y staff yn cymryd rhan weithredol mewn gweithgareddau gwella ansawdd, gan ddatblygu a gweithredu dulliau arloesol o ddarparu gofal, gan gynnwys cymryd rhan mewn prosiectau ar draws y clwstwr cyfan. Roedd y partneriaid yn cyfarfod yn rheolaidd i drafod arloesedd a datblygiadau i'r gwasanaeth. Roedd amrywiaeth o archwiliadau clinigol ac anghlinigol yn cael eu cynnal, fel cofnodion cleifion, atal a rheoli heintiau, rheoli gwastraff, offer miniog, ystafelloedd ymgynghori, iechyd a diogelwch a phrofiad y claf. Er bod trefniadau ar waith i gefnogi presgripsiynwyr anfeddygol, gwnaethom nodi cyfle i'r practis gryfhau ei brosesau llywodraethu drwy roi system fwy cadarn ar waith i

fonitro a dogfennu cymwyseddau presgripsiynwyr anfeddygol. Byddai hyn yn helpu i roi sicrwydd ychwanegol bod staff presgripsiynu'n cynnal y wybodaeth, y sgiliau a'r cymwyseddau sy'n ofynnol ar gyfer eu rôl.

Rhaid i'r practis roi proses ffurfiol ar waith i fonitro a dogfennu cymwyseddau presgripsiynwyr anfeddygol.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Gwelsom dystiolaeth o drefniadau gweithio mewn partneriaeth lle roedd y practis yn cydweithio fel rhan o'r clwstwr meddygon teulu. Roedd staff yn mynychu cyfarfodydd y clwstwr ac yn darparu gwasanaethau i'r clwstwr cyfan.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn ymgysylltu'n dda iawn â'r grŵp clwstwr, a bod y practisau'n cydweithio'n dda â'i gilydd.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen ymdrin â'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Ni nodwyd unrhyw bryderon uniongyrchol yn ystod yr arolygiad hwn.			

Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

Gwasanaeth: Meddygfa Tŷ Corwen

Dyddiad yr arolygiad: 11 Awst 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiffyg cydymffurfio sy'n ymwneud â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n nodi'r camau brys y mae'n eu cymryd.

Canfyddiadau	Ni nodwyd unrhyw welliannau yn ystod yr arolygiad hwn.		
Yr hyn sydd angen ei wella		**Safon / Rheoliad**	
1.			
Camau Gweithredu gan y Gwasanaeth:		**Swyddog cyfrifol**	**Amserlen**

Atodiad C – Cynllun gwella

Gwasanaeth: **Meddygfa Tŷ Corwen**

Dyddiad yr arolygiad: 11 Awst 2026

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater		Yr hyn sydd angen ei wella	Safon / Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
1.	Nid oedd baneri diogelu'n cael eu hychwanegu at gofnodion cysylltiadau aelwyd y plant ar y gofrestr amddiffyn plant fel mater o drefn, a allai arwain at beidio â nodi risgiau diogelu yn brydlon wrth gael gafael ar gofnodion.	Rhaid i'r practis roi proses ar waith i sicrhau bod baneri diogelu yn cael eu hychwanegu at gofnodion cysylltiadau aelwyd y plant ar y gofrestr amddiffyn plant.	2.7 Diogelu a hyrwyddo lles plant	Bydd yr Arweinydd Diogelu a Rheolwr y Practis yn rhoi proses ffurfiol ar waith i sicrhau bod cysylltiadau aelwyd perthnasol y plant ar y Gofrestr Amddiffyn Plant gyfredol yn cael eu nodi'n briodol a'u nodi yn EMIS. Bydd hyn yn cael ei gyfathrebu â phob clinigydd sy'n gwneud newidiadau i ddata amddiffyn plant. Bydd y practis yn cynnal archwiliadau chwarterol i fonitro cydymffurfiaeth	Arweinydd Diogelu Rheolwr y Practis	2 fis

2.	Nid oedd polisi Ni Ddaethpwyd â Nhw y practis yn cynnwys trefniadau ar gyfer apwyntiadau dilynol i blant ac oedolion agored i niwed na wnaethant fynychu eu hapwyntiadau ysbyty, a allai arwain at golli cyfleoedd i nodi pryderon diogelu neu anghenion gofal iechyd heb eu diwallu.	Rhaid i'r practis adolygu a diweddaru ei bolisi Ni Ddaethpwyd â Nhw i gynnwys proses wedi'i dogfennu er mwyn rhoi apwyntiad dilynol i blant dan 16 oed ac oedolion agored i niwed na wnaethant fynychu eu hapwyntiadau ysbyty, gan sicrhau y caiff eu statws atgyfeirio ei adolygu ac y caiff pob cam gweithredu ei gofnodi.	Safonau Ansawdd Iechyd a Gofal 2023 2.7 Diogelu a hyrwyddo lles plant 2.8 Diogelu oedolion sy'n wynebu risg	Bydd y practis yn adolygu ac yn diweddaru ei bolisi Ni Ddaethpwyd â Nhw presennol i gynnwys trefniadau ar gyfer apwyntiadau dilynol i blant dan 16 oed ac oedolion agored i niwed na wnaethant fynychu eu hapwyntiadau ysbyty. Bydd pob cam gweithredu a chanlyniad yn cael ei ddogfennu yn EMIS Web. Bydd staff y dderbynfa a'r staff gweinyddol yn cael gwybod am y weithdrefn ddiwygiedig, a bydd cydymffurfiaeth yn cael ei monitro drwy archwiliadau chwarterol.	Meddygon teulu sy'n bartneriaid Rheolwr y Practis	2 fis
3.	Nid oedd y staff wedi cwblhau hyfforddiant Silindrau Ocsigen BOC, a allai effeithio ar drafod a defnyddio silindrau ocsigen yn ddiogel yn ystod argyfwng meddygol.	Rhaid i'r practis drefnu bod pob aelod o'r staff yn cael hyfforddiant ar Silindrau Ocsigen BOC.	2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch	Bydd Rheolwr y Practis yn sicrhau bod y staff yn cwblhau hyn	Rheolwr y Practis	2 fis

4.	Nid oedd y cyffuriau a'r cyfarpar brys yn cael eu gwirio mor aml â'r hyn oedd yn cael ei argymell gan y Cyngor Adfywio (y DU), gan effeithio o bosibl ar y sicrwydd eu bod yn parhau i fod yn barod i'w defnyddio mewn argyfwng.	Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau ar gyffuriau a chyfarpar brys yn cael eu cwblhau'n wythnosol o leiaf, yn unol â chanllawiau'r Cyngor Adfywio.	2. Gofal Diogel	Mae hyn eisoes ar waith ac yn cael ei wirio'n wythnosol ar ôl ymweliad AGIC		Wedi'i gwblhau

5.	Nid oedd gan y practis broses sicrhau ansawdd ffurfiol ar waith i adolygu crynodebau cofnodion cleifion newydd a gwblhawyd gan staff gweinyddol, a allai arwain at anghywirdebau neu hepgoriadau yng nghofnodion y cleifion.	Rhaid i'r practis gyflwyno proses sicrhau ansawdd er mwyn adolygu gwaith crynhoi cofnodion cleifion newydd a gwblhawyd gan aelodau o'r staff gweinyddol.	2.13 Cadw cofnodion	Bydd Rheolwr y Practis yn cynnal gwiriadau misol o sampl o grynodebau wedi'u cwblhau i sicrhau bod gwybodaeth feddygol arwyddocaol wedi'i chofnodi'n a'i chodio'n gywir yn EMIS Web. Bydd unrhyw wallau neu hepgoriadau a nodwyd yn cael eu cywiro, gydag anghysondebau clinigol yn cael eu hatgyfeirio at Bartner Meddyg Teulu i'w hadolygu. Bydd adborth a hyfforddiant ychwanegol yn cael eu darparu i'r staff lle bo angen. Bydd cofnodlyfr archwilio sicrwydd ansawdd chwarterol yn cael ei gynnal, a bydd canfyddiadau'n cael eu hadolygu yn ystod cyfarfodydd llywodraethu'r practis er mwyn monitro cydymffurfiaeth a chefnogi gwelliant parhaus.	Meddyg Teulu Partner Rheolwr y Practis	1 mis

6.	Nid oedd gan y practis broses ffurfiol ar gyfer monitro a dogfennu cymwyseddau presgripsiynwyr anfeddygol, a allai leihau'r sicrwydd bod y practis presgripsiynu yn parhau i fod yn ddiogel, yn effeithiol ac yn unol â'r gofynion proffesiynol.	Rhaid i'r practis roi proses ffurfiol ar waith i fonitro a dogfennu cymwyseddau presgripsiynwyr anfeddygol.	3.3 Sicrhau ansawdd, gwella ansawdd a rheoli ansawdd 3.5 Dysgu a Datblygu	Ar wahân i'r adolygiadau DPP sydd eisoes yn cael eu cwblhau'n flynyddol, bydd y practis yn cynnal adolygiadau ffurfiol ddwywaith y flwyddyn gyda phresgripsiynwyr anfeddygol, i sicrhau arfer diogel.	Meddygon teulu sy'n bartneriaid	Ionawr 2027

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd o'r gwasanaeth sydd â chyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol am sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Mena Britto

Swydd: Rheolwr y Practis **Dyddiad: 11.10.26**